CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd:	**Cogydd â Chyfrifoldeb**
Rhif y Swydd:	**MCC3741**
Cod Gwerthuso Swyddi:	**LES249**
Gwasanaeth:	**Arlwyo a Glanhau**
Lleoliad/Canolfan Waith:	**Canol Powys – Llandrindod / Llanfair ym Muallt**

mae hon yn swydd gweithio o leoliad penodol, ac felly bydd rhaid i'r sawl sydd yn y swydd weithio o leoliad penodol fel y nodir

Graddfa:	**Graddfa 6** **Pwynt 11 i Bwynt 14** **£29,071 i £30,515 y flwyddyn ar gyfartaledd** **£15.06 i £15.81 yr awr**
Oriau'r contract:	**25 awr, Cyfnod penodol tan 31/10/2027**
Atebol i:	**Rheolwr Arlwyo**
Cyfrifoldeb dros:	**Staff y gegin**

Crynodeb

Am y rôl:

Bydd y Cogydd Symudol hwn wedi'i leoli yng Nghanolbarth Powys. 25 awr yr wythnos a 42 wythnos y flwyddyn. Mae cyfle bob amser am waith ychwanegol yn ystod gwyliau'r haf wrth i ni gynnal rhaglen fwyd a hwyl a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn rhai o'n hysgolion.

Amdanoch chi:

- Mae angen i chi gael trwydded yrru a'ch cludiant eich hun gydag yswiriant busnes.
- Profiad a Chymwysterau mewn Coginio yn hanfodol (diogelwch bwyd lefel 2 neu gyfwerth)
- Ymagwedd hyblyg at amseroedd gwaith y dydd
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol.
- Gweithio'n dda mewn tîm neu ar eich pen eich hun
- Meddu ar rywfaint o wybodaeth am ddeietau arbennig ac alergenau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rôl, cysylltwch â:
Rheolwr Arlwyo Ardal Joanne Tomlins 01597 827166

Bydd eich cyfrifoldebau'n cynnwys:

1. Darparu gwasanaeth rheng flaen yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Powys, wrth ddarparu gwaith llanw ar gyfer absenoldeb y cogydd â chyfrifoldeb neu ariannydd parhaol. Mae cyfrifoldebau fel a ganlyn:
2. Paratoi, coginio a gweini bwyd trwy'r defnydd effeithiol o adnoddau gan gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelwch Bwyd ynghyd â safonau maethol yn unol ag Agenda Blas am Oes a'r holl weithdrefnau, polisïau a deddfwriaeth sy'n berthnasol.

3. Cynnal safonau gwaith o fewn cyfrifoldeb deilydd y swydd gan gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelwch Bwyd a'r holl weithdrefnau a pholisïau perthnasol.

4. Sicrhau fod archebu, paratoi, coginio, cyflwyno, gweini a thalu am brydau bwyd yn cael eu cyflawni hyd at ofynion y gwasanaeth

5. Sicrhau fod y fwydlen a phrydau bwyd yn cydymffurfio â chanllawiau maeth a chyllideb gan gynnwys gofynion diet arbennig

6. Goruchwylio staff cegin gan gynnwys dyrannu dyletswyddau a hyfforddiant 'ar y swydd'

7. Cynnal cofnodion cywir a rheoli stoc yn unol â chyfarwyddiadau.

8. Sicrhau bod holl ddyletswyddau'r ariannydd yn cael eu cyflawni a bod y gwaith bancio yn cael ei wneud.

9. Cydweithio gyda'r pennaeth neu gwsmeriaid fel bo angen.

Gofynion Gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

Oherwydd natur y gwaith sydd ynghlwm a'r swydd hon, mae'r swydd hon rydych yn ymgeisio amdani yn destun y Ddeddf Adsefydlu Tramgwyddwyr 1974 (Eithriadua) Gorchymyn 1975 (fel y'i diwygiwyd 2013) – Bydd rhaid cael Gwiriad Manylach DBS gan fod y swydd wedi'i dosbarthu fel gweithgaredd rheoledig o dan y Ddeddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006 fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 a bydd yn amodol ar wirio'r rhestr o'r bobl hynny sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant.

Gofynion Iechyd a Diogelwch

Cydweithredu gyda'u cyflogwr a dilyn cyngor a chyfarwyddiadau iechyd a diogelwch.

Datganiad Cydraddoldebau:
Cydymffurfio ag egwyddorion ac arfer cyfle cyfartal fel y nodir ym Mholisi Cyfle Cyfartal y Cyngor.

Gofynion y Gymraeg
Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

SYLWCH;

Er y manylion sydd yn y swydd ddisgrifiad, bydd gofyn i'r sawl sydd yn y swydd wneud unrhyw waith ar gais y Rheolwr o dro i dro, hyd at neu ar lefel sy'n cyfateb â 'Phrif Gyfrifoldebau'r Swydd.'

Y PERSON

Ydych chi'n meddwl mai chi yw'r person cywir i'r rôl? Os felly, dangoswch eich bod chi'n bodloni'r meini prawf canlyniol yn eich cais.

Profiad

Hanfodol

- O weithio o fewn amgylchedd cegin brysur
- Arwain tîm bychan

Dymunol

- Gwasanaeth prydau bwyd ysgolion

Gwybodaeth

Hanfodol

- Paratoi bwyd
- Deddf Diogelwch Bwyd
- HACCP
- Rheoli maint y prydau
- Arferion gwaith diogel

Dymunol

- Blas am Oes
- Safonau maethol
- Gweithdrefnau'r til a bancio

Cofrestriadau, Cymwysterau a Hyfforddiant

Hanfodol

- Tystysgrif City and Guilds 706/1/2
- Cludo a chario

Dymunol

- Hylendid Bwyd

Rhinweddau Personal

Hanfodol

- Sgiliau Cyfathrebu da
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm
- Y gallu i fod yn arweinydd tîm

- Gallu i gyflawni cymwysterau hyfforddiant perthnasol

Sgiliau

Hanfodol

- Cyflwyno
- Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu da
- Gweithio i amserlenni tynn
- Hyfforddi staff y gegin ar gyfer gwahanol dasgau

Gofynion Eraill

Hanfodol

- Meddu ar y gallu i addasu ac i fod yn hyblyg yn y lleoliad gwaith
- Bydd gwiriad manylach y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.
- Bydd trwydded yrru hefyd yn hanfodol.

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

Rheolwr recriwtio: Cheryl Leighton
Mai 11

Ein gwerthoedd:

Proffesiynol
Rydym yn ymddwyn gyda phroffesiynoldeb ac integriti ym mha bynnag rôl yr ydym yn ei chwarae yn y cyngor

Cadarnhaol
Mae ein hagwedd yn gadarnhaol ym mhopeth a wnawn

Blaengar
Mae ein hymagwedd yn rhagweithiol a chyfrifol wrth gynllunio am y dyfodol

Agored
Rydym yn hysbysu'n gilydd gan rannu gwybodaeth ac ymddwyn â gonestrwydd ac integriti

Cydweithiol
Rydym ni'n gweithio'n adeiladol ac â pharodrwydd ar fentrau ar y cyd

Sut i ymgeisio

Bydd angen i chi gwblhau'r cais ar-lein, mae'n syml, dilynwch y broses gam wrth gam.

Gair i gall:

- Darllenwch y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person yn ofalus a'r dystiolaeth eich bod chi'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol yn eich datganiad cefnogi.
- Gwerthwch eich hun a rhowch enghreifftiau ble y bo'n bosibl
- Rhestrwch y cymwysterau sydd gennych sy'n berthnasol i'r swydd, yn ôl y manylion ym manyleb y person.
- Sicrhewch fod un o'ch canolwyr o'ch cyflogwr mwyaf diweddar neu os mai hon yw eich swydd gyntaf beth am ofyn i athro ysgol neu diwtor, ond sicrhewch eich bod yn adnabod y canolwr ar lefel broffesiynol.
- Byddwch yn onest a dywedwch wrthym am unrhyw fylchau yn hanes eich cyflogaeth
- Cwblhewch y cais yn gyflawn

Camau nesaf

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 11/11/2026.
Ar ôl cyflwyno byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod i chi ein bod ni wedi derbyn eich cais.
Byddwn yn creu rhestr fer o'r ceisiadau ar 13/11/2026. Byddwn yn anfon e-bost atoch os ydych chi'n llwyddiannus ai peidio. Felly, cadwch lygad ar eich mewnflwch!

Bydd y cyfweliadau'n digwydd ar 16/11/2026.

Dymunwn bob hwyl i chi gyda'ch cais.